

*Templed ar gyfer* Cofnodion Byrddau Arholi Adrannol  
**ADRAN B – DADANSODDI DATA ARHOLIADAU**

Adran:

Semester/Blwyddyn:

Cadeirydd y Bwrdd Arholi:

**Cymariaethau Modiwl a Marciau**

*Dylai adrannau restru'r holl fodiwlau a arholwyd yn ystod y Semester hwn a darparu cofnod o unrhyw syniadau a thrafodaethau ar faterion megis cymedroli, dadansoddi perfformiad ar y modiwl dros nifer o flynyddoedd, sylwadau ar unrhyw fodiwlau â graddfeydd uchel o fethu'n gyson, neu unrhyw fodiwlau y tu allan i'r norm, e.e. unrhyw newidiadau sylweddol ym marciau'r cymedr, neu lle mae myfyrwyr yn tan- neu'n gor-berfformio ar fodiwl o gymharu â myfyrwyr eraill yn y flwyddyn.*

*Gallwch ddefnyddio'r adroddiadau AStRA canlynol i helpu wrth ddadansoddi'r data: STR03025 (Marciau Modiwlau – Crynodeb fesul Semester/Adran) a STR06027 (Gwasgariad Marciau).*

**Enghraifft**

<b>Cyfeirnod Modiwl</b>	<b>Teitl y Modiwl</b>	<b>Cyfar taled d</b>	<b>Gwyr iad Safonol</b>	<b>% meth u</b>	<b>Sylwadau</b>
<i>XX21110</i>	<i>Sgiliau Ymchwil</i>	<i>62.33</i>	<i>10.87</i>	<i>n/a</i>	<i>Pleser oedd gweld y cymedr ar gyfer y modiwl hwn yn codi o 4% yn uwch na'r ddwy flynedd flaenorol. Mewn dosbarth mor fach, roedd hwn oherwydd ambell berfformiad rhagorol yn adran atebion byrion/ymateb i ddata'r papur lle cafodd ychydig dros hanner y myfyrwyr farc dosbarth cyntaf. Roedd y marciau ar gyfer y traethawd yn llawer is. Roedd y niferoedd yn llai eleni felly pleser yw gweld cynnydd yn y gwyriad safonol.</i>
<i>XX20020</i>	<i>Sgiliau Ysgrifennu</i>	<i>48.37</i>	<i>16.74</i>	<i>39.62</i>	<i>Er nad yw'r marc cyfartaledd o 48% yn anghyson â chyfartaledd y llynedd, nac ychwaith â modiwlau eraill semester 1 eleni, mae perfformiad myfyrwyr yn yr asesiad arholiad nas gwelwyd ymlaen llaw yn parhau i achosi pryder, er gwaethaf ymdrechion newydd i wella'r modd y mae'r cynnwys yn cael ei ddysgu. Gofynnwyd i fyfyrwyr ddarparu dau ateb ar ffurf traethawd i ddau gwestiwn o blith pedwar, un o bob adran. Roedd y marciau a ddyfarnwyd ar gyfer atebion y ddwy adran yn debyg.</i>

					<p><i>Ymhlith y rhesymau cyffredin dros ddyfarnu marciau isel oedd: Methu darparu gwybodaeth fanwl: malu awyr pur a gafwyd yn yr atebion gwael, heb ddangos tystiolaeth o fynychu darlithoedd na darllen; methu dyfynnu tystiolaeth i gefnogi'r honiadau, hyd yn oed os oedd y cwestiwn yn gofyn iddynt wneud hynny'n benodol; methu canolbwyntio ar y cwestiwn dan sylw; cynigiodd ambell fyfyrwr grynodeb annelwig hanes amgylcheddol, yn hytrach nag esbonio'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi data; Methu strwythuro atebion traethodau yn effeithiol. Mae nifer o'r atebion dosbarth cyntaf yn dangos bod y modiwl yn effeithiol os yw'r myfyrwyr yn gwneud ymdrech i ddysgu'r deunydd a gyflwynir yn y darlithoedd. Rhaid atgoffa myfyrwyr mai dysgu gwybodaeth yw'r cam cyntaf yn unig tuag at yr agwedd ddadansoddol, feirniadol sy'n ofynnol yn yr arholiad a'r aseiniadau gwaith cwrs yn Rhan 2.</i></p>
XX24520	Datblygiad Tîm	60.89	10.95	9.39	<p><i>Gostyngodd y cyfartaledd o 63.79 i 60.89, ond fe wnaeth y gwyriad safonol barhau yn eithaf cyfatebol. Cymerodd y modiwl hwn le modiwl hir a thenau, ac roedd cyfartaleddau'r modiwl hwnnw yn gyson â 60.89 modiwl eleni. O gymryd i ystyriaeth y tueddiadau tymor hir nad ydynt yn cael eu cynnwys ar y daflen cymharu marciau, mae'r gostyngiad yn y cymedr eleni yn dangos dychweliad i'r cyfartaledd o fân-allanolyn y llynedd.</i></p>